

**Gweithwyr Cefnogi Gofal Ychwanegol**
**Cyflog - £25,583 – £26,824 / Gradd G02**
**1 x 21.00 awr nosweithiau**
**Rhan amser, Parhaol**

## Gweithwyr Cefnogi Gofal Ychwanegol

Plas yr Ywen, Treffynnon

Mae ein Cynlluniau Gofal Ychwanegol yn darparu cymuned gefnogol lle gall pobl hŷn fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain gyda mynediad 24 awr y dydd at ofal neu gymorth er mwyn cynnal eu hiechyd, eu hannibyniaeth a'u lles.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n deall anghenion pobl sy'n ddiamddiffyn oherwydd oedran neu anabledd ac sy'n gallu arddangos agwedd a dulliau gweithio sy'n gwerthfawrogi pobl, yn cynnal parch ac urddas ac yn hyrwyddo annibyniaeth.

Byddai peth profiad o weithio mewn swydd ofalu a chefnogi o fantais, fodd bynnag mae Sir y Fflint yn chwilio am bobl sydd â'r agwedd iawn tuag at gefnogi unigolion yn eu cartref eu hunain. Bydd hyn yn gofyn am sgiliau cyfathrebu rhagorol, y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd a bod yn angerddol dros sicrhau deilliannau da ar gyfer pobl. Os ydych chi'n un o'r bobl yma, hoffem glywed gennych chi.

Mae'r swyddi hyn yn cynnwys gweithio ar benwythnosau a gweithio oriau anghymdeithasol.
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

Diben y swydd hon yw gweithio gyda, a chynorthwyo oedolion diamddiffyn felly bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym yn cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynnwys Gwyliau Banc, yn cynyddu i 41 diwrnod • Mynediad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd gwaith-bywyd • Gweithio'n hybrid (swyddi penodol) • Mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth gweithwyr am ddim • Cynllun Beicio i'r Gwaith • Gostyngiadau ar draws masnachwyr y DU.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:
Debbie Davies (Plas) Extra Care Managers e-bost: socialservices.employmentservices@flintshire.gov.uk

01352 701923 / 01352 701913 neu yn Gymraeg 01267 224923

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council